# MEDDWL. MENTRO. MWYNHAU.

## Prosbectws Swyddi Talent Cyngor Gwynedd 2026

## TUDALEN CYNNWYS


Y PRIF WEITHREDWR - Neges gan Dafydd Gibbard

CROESO - Dewisiwch yrfa gyda Cyngor Gwynedd

CYDRADDOLDEB - Cyflogwyr cynhwysol

CEFNOGI YMGEISWYR - Ffurflenni Cais a Chyfweliadau

CYFLOGWR DIGIDOL - Cynllun Digidol y Cyngor

UNDEB Y DYFODOL - I aelodau o sta rhwng 16 - 35 oed

CYNLLUN YFORY - Cynllun Graddedigion - Gradd Meistr

SWYDDI CYNLLUN YFORY - Rhestr Swyddi 2026

Asiant Cefn yrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ACGCC

CANLLAWIAU CAIS CYNLLUN YFORY

LLWYDDIANT LLINOS - Profiad Hy orddai Pro esiynol Cynllunio a Pheirianneg Trafnidiaeth

PRENTISIAETHAU - Dewis doeth

SWYDDI PRENTISIAETHAU - Rhestr Swyddi 2026

LLWYDDIANT NED - Profiad Prentis Technegydd Fflyd

CANLLAWIAU CAIS PRENTISIAETHAU

BE NESA'? - Proses recriwtio


## Y PRIF WEITHREDWR

"Pan feddyliwch chi am beth mae awdurdod lleol yn ei wneud, beth ydi'r peth cyntaf sydd yn dod i'ch meddwl chi? Casglu trethi, hel sbwriel neu redeg llyfrgelloedd efallai? Os mai un o'r atebion yma sydd yn dod i'ch meddwl chi gyntaf, rydych chi'n hollol gywir, ond mae'n bosib nad ydych yn gwybod am yr holl wasanaethau eraill mae Cyngor Gwynedd yn ei gynnig bob dydd. Rydym yn darparu ystod eang o wasanaethau ar draws ein Sir gan gynnwys addysgu ein plant, gofalu am ein pobl, atgyweirio'r lonydd, edrych ar ol ein llesiant a hybu ein busnesau lleol i lwyddo. Y prif beth sydd yn ein galluogi ni fel Cyngor i wneud hyn yn llwyddiannus yw'r staff sy'n gweithio yma. Mae'r Cyngor yn llawn pobl sydd wedi dewis gweithio yma oherwydd eu bod eisiau helpu pobl Gwynedd a gwneud gwahaniaeth i'r gymuned maent yn byw ynddi a'r amgylchedd o'u cwmpas.

Dyma eich cyfle chi i fod yn rhan o weithlu sydd wir yn gwneud gwahaniaeth. Trwy gynlluniau prentisiaethau a Chynllun Yfory gyda Chyngor Gwynedd, byddwch yn derbyn profiadau gwerthfawr drwy weithio ochr yn ochr efo swyddogion profiadol, yn ogystal a chael cwblhau cymhwyster a hefyd derbyn cyflog teg yr un pryd. Fel rhywun fu'n ddigon ffodus i gael cyfle i fod yn rhan o gynllun tebyg pan yn cychwyn gweithio, gallaf eich sicrhau ei fod yn gynllun arbennig o dda!"

# CROESO

## Hoffem eich croesawu i brosbectws Prentisiaethau a Chynllun Yfory Cyngor Gwynedd

Os ydych chi'n chwilio am y cyfle perffaith i ddatblygu eich gyrfa ond ddim yn siŵr lle i ddechrau, gall cyflawni prentisiaeth neu Gynllun Yfory fod y cam nesaf i chi. Dim ond dechrau'r daith yw dilyn prentisiaeth neu swydd Hyfforddai Proffesiynol gyda Cynllun Yfory gan ei fod yn gallu eich arwain i ddilyn nifer o lwybrau cyffrous, megis sicrhau swydd neu barhau i ddatblygu eich sgiliau. Rydym yn mawr obeithio y bydd y pecyn yn eich ysbrydoli i ddilyn gyrfa gyda Chyngor Gwynedd ac y bydd ein cyfleoedd yn apelio atoch chi. Diolch am gymryd y cyfle i ystyried ein llwybrau gyrfa, a pheidiwch ag oedi i gysylltu os oes angen unrhyw arweiniad pellach arnoch. Gwnewch y dewis doeth. Dewiswch yrfa gyda Chyngor Gwynedd.

# CYFLEOEDD CYNLLUN YFORY 2026

Hyfforddai Proffesiynol Arwain a Rheoli - Y Gronfa Bensiwn

Hyfforddai Proffesiynol Cynllunio a Pheirianneg Trafnidiaeth

Hyfforddai Proffesiynol Trethi a Budd-daliadau

Hyfforddai Proffesiynol Cynllunio

Hyfforddai Proffesiynol Coedyddiaeth

Hyfforddai Proffesiynol Cynnal Tiroedd

Hyfforddai Proffesiynol Marchnata

# GOFYNION SYLFAENOL CYNLLUN YFORY

Eich bod yn meddu ar (neu yn debygol o ennill) gradd dosbarth 2:2 neu uwch. Rydych yn gymwys i ymgeisio waeth pryd wnaethoch chi raddio. Eich bod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Eich bod yn meddu ar TGAU Gradd C neu uwch mewn Mathemateg, Cymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth. Eich bod wir eisiau gweithio mewn llywodraeth leol. Eich bod wedi dangos parodrwydd i arwain eraill e.e. mewn sefyllfa addysgiadol (ysgol, coleg, prifysgol), chwaraeon, gymdeithasol, gymunedol neu waith

## PWRPAS

Mae'r Cynllun yn rhoi'r cyfle i chi ddatblygu arbenigedd mewn maes allweddol a deall mwy am weithio mewn llywodraeth leol. Byddwch yn derbyn profiadau ymarferol a chyfleoedd i ddatblygu eich sgiliau arbenigol a phersonol i sicrhau gyrfa hir a llwyddiannus yma, yng Nghyngor Gwynedd.

## EGWYDDORION

- Dangos y potensial i fod yn arbenigwr ac yn arweinydd

- Cyflawni gwaith o'r safon uchaf
- Cydweithio efo pobl yn effeithiol
- Yn barod i herio
- Blaenoriaethu llesiant
- Dangos lefel uchel o hunan ymwybyddiaeth

## CYFLOG

£31,537 i £33,699 - Bydd yr union bwynt cyflog yn ddibynnol ar gynnydd

# HYFFORDDAI PROFFESIYNOL ARWAIN A RHEOLI Y GRONFA BENSIWN

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Hyfforddai Proffesiynol Arwain a Rheoli – Y Gronfa Bensiwn yn cynnwys arwain ar fframwaith statudol a llywodraethu'r gronfa, rheoli risg a chydymffurfiaeth, cefnogi'r Pwyllgor a'r Bwrdd, cydlynu cyfathrebu â rhanddeiliaid, integreiddio egwyddorion ESG, a gyrru prosiectau a gwelliannau prosesau.

Bydd yr Hyfforddai Proffesiynol yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r fframwaith statudol drwy fonitro newidiadau deddfwriaethol a chynghori uwch reolwyr. Byddant yn cadw polisïau a dogfennau llywodraethu'n gyfredol ac yn cefnogi'r Pwyllgor a'r Bwrdd drwy baratoi papurau a threfnu cyfarfodydd. Bydd yr hyfforddai'n rheoli risg drwy ddatblygu'r gofrestr risg ac ymgysylltu ag archwiliadau. Byddant hefyd yn cydlynu cyfathrebu â rhanddeiliaid, sicrhau bod gwybodaeth statudol yn gywir ac yn brydlon, ac yn cefnogi llywodraethu buddsoddi drwy ddadansoddi perfformiad ac integreiddio egwyddorion ESG.

I rywun sydd yn drefnus, yn hyderus gyda data ac yn gallu esbonio gwybodaeth yn glir, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd eisiau datblygu'n arweinydd yn y dyfodol drwy ddilyn gofynion statudol, adnabod a rheoli risgiau, gweithio'n broffesiynol gyda rhanddeiliaid ac asesu perfformiad i gefnogi llywodraethu'r Gronfa Bensiwn.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr hyfforddai proffesiynol yma yn gweithio yn yr adran Cyllid, Gwasanaethau Pensiynau gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 3 mlynedd.**

## GRADD MEISTR

**Does dim angen gradd mewn pwnc penodol**

**Penderfynir ar y radd Meistr ar ôl cynnig swydd, gyda dewis prifysgol, cwrs a dull astudio priodol yn unol a'r rôl**

# HYFFORDDAI PROFFESIYNOL CYNLLUNIO

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Hyfforddai Proffesiynol Cynllunio yn cynnig profiad ymarferol eang mewn rheoli datblygu, gorfodaeth a pholisi cynllunio, gan gefnogi gwaith ceisiadau, ymchwil a phrosiectau strategol fel rhan o dîm cynllunio Gwynedd.

Bydd yr Hyfforddai Proffesiynol yn cefnogi gwaith rheolaeth datblygu drwy brosesu ceisiadau a chynorthwyo i baratoi adroddiadau. Byddant yn helpu gyda chyflwyno adroddiadau mewn pwyllgorau, ymweliadau safle a chyfarfodydd, ac yn cyfrannu at baratoi datganiadau ac adroddiadau ar gyfer apeliadau. Bydd yr hyfforddai hefyd yn cynorthwyo i ymchwilio achosion o dorri rheolau cynllunio ac i gefnogi achosion gorfodaeth. Byddant yn darparu cyngor cynllunio sylfaenol i'r cyhoedd a datblygwyr, yn cefnogi gwaith polisi drwy gyfrannu at y Cynllun Datblygu Lleol a dogfennau strategol, ac yn cydweithio ar brosiectau ymchwil a blaenoriaethau strategol y Cyngor.

I rywun sydd â llygaid am gywirdeb, yn drefnus ac â diddordeb mewn cynllunio, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd eisiau datblygu'n arweinydd yn y dyfodol ac am weithio'n hyderus gyda thimau proffesiynol i heriau sy'n codi wrth reoli datblygu ac apeliadau cynllunio.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr hyfforddai proffesiynol yma yn gweithio yn yr adran Amgylchedd, Gwasanaethau Cynllunio gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 3 mlynedd.**

**Prif Swyddfa – Ffordd y Cob, Pwllheli**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## GRADD MEISTR

**Mae angen Gradd neu gymhwyster cyffelyb mewn Cynllunio Gwlad a Thref neu mewn pwnc perthnasol i faes gwaith y Gwasanaeth**

**Penderfynir ar y radd Meistr ar ôl cynnig swydd, gyda dewis prifysgol, cwrs a dull astudio priodol yn unol a'r rôl**

# HYFFORDDAI PROFFESIYNOL MARCHNATA

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl yn canolbwyntio ar greu a chyflwyno cynnwys marchnata ac ymgyrchoedd cyfathrebu i hyrwyddo gwaith amrywiol yr Adran Economi, gan gynnwys cynhyrchu fideos, erthyglau a deunydd ar gyfer cyfryngau cymdeithasol a gwefannau'r Cyngor.

Byddwch yn helpu i gefnogi a hyrwyddo gwasanaethau amrywiol yr Adran drwy greu a chyflwyno strategaethau marchnata effeithiol ar draws lleoliadau allweddol fel Parciau Gwynedd, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd. Bydd y rôl yn cynnwys datblygu cynnwys digidol creadigol, rheoli prosiectau marchnata, a chydlynu ymgyrchoedd cyfathrebu i ymgysylltu â chymunedau

lleol ac ymwelwyr. Byddwch hefyd yn defnyddio technegau marchnata digidol cyfoes, gweithio gyda thimau amrywiol, a blaenoriaethu tasgau i gefnogi datblygiadau, prosiectau a gwasanaethau twristiaeth, adfywio a diwylliant ledled y sir.

I rywun sydd â sgiliau cyfathrebu cryf, creadigrwydd digidol, trefniadaeth ragorol a'r gallu i reoli prosiectau, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn hyderus sy'n gallu cydlynu ymgyrchoedd marchnata, datblygu cynnwys deniadol, defnyddio technegau digidol cyfoes, gweithio'n effeithiol ar draws timau a blaenoriaethu llwyth gwaith wrth gefnogi a hyrwyddo gwasanaethau'r Adran ar draws lleoliadau allweddol ledled y sir.

### GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr hyfforddai proffesiynol yma yn gweithio yn yr adran Economi a Chymuned, Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 3 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

### GRADD MEISTR

**Fe ddylai eich gradd fod mewn pwnc sydd yn berthnasol i'r maes**

**Penderfynir ar y radd Meistr ar ôl cynnig swydd, gyda dewis prifysgol, cwrs a dull astudio priodol yn unol a'r rôl**

## GEIRDA HYFFORDDAI PROFESSIYNOL IECHYD YR AMGYLCHEDD

Mae sawl mantais o wneud Gradd Meistr gyda Chyngor Gwynedd, un o rhai pennaf yw fy mod yn cael profiad gwaith dydd i ddydd sydd yn cyd-fynd a deunydd cwrs. Mae hyn yn fy nghaniatáu i gronni dealltwriaeth helaeth o'r maes ac i gyfeirio yn ôl at brofiadau personol yn fy ngwaith coleg

## HYFFORDDAI PROFFESIYNOL CYNLLUNIO A PHEIRIANNEG TRAFNIDIAETH

### CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Hyfforddai Proffesiynol Cynllunio a Pheirianneg Trafnidiaeth yn rhoi profiad uniongyrchol o fyd peirianneg trafnidiaeth drwy weithio ar amrywiaeth o brosiectau sy'n gwella diogelwch, symudedd a seilwaith ar draws Gwynedd ochr yn ochr â pheirianwyr profiadol.

Bydd yr Hyfforddai Proffesiynol yn cefnogi prosiectau trafnidiaeth ac isadeiledd sy'n gwella diogelwch a safon bywyd trigolion Gwynedd. Byddant yn cynnal astudiaethau dichonoldeb a diogelwch priffyrdd, cyfrannu at archwiliadau diogelwch ac at ddylunio gwelliannau i ffyrdd ac isadeiledd bysiau. Bydd yr hyfforddai'n dadansoddi data traffig ac asesu croesfannau cerddwyr a llwybrau cerdded a beicio, yn ogystal ag adolygu data damweiniau a chynghori ar fesurau diogelwch. Byddant yn helpu i ddylunio ac ymgynghori ar arwyddion a marciau ffordd, ac yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ar gynlluniau trafnidiaeth arfaethedig.

I rywun sy'n hyderus gyda data ac yn mwynhau datrys problemau ymarferol, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd eisiau datblygu'n arweinydd yn y dyfodol ac am weithio'n effeithiol gyda pheirianwyr a'r cyhoedd i wella symudedd a diogelwch ar draws Gwynedd.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr hyfforddai proffesiynol yma yn gweithio yn yr adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref, ar safle, yn y gymuned a'r swyddfa dros gytundeb o 3 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## GRADD MEISTR

**Mae angen cefndir mewn Peirianneg Sifil, Gwyddorau Cymdeithasol, Daearyddiaeth, neu Fathemateg**

**Meistr Cynllunio a Pheirianneg Trafnidiaeth yn Prifysgol Caeredin Napier, dysgu o bell dros dair blynedd yn rhan-amser**

# ASIANT CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU ACGCC

Mae staff ACGCC yn cael eu cyflogi gan Gyngor Gwynedd sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru. Mae gan yr Asiant dros 250 o weithwyr ac mae'n cynnig model gweithio hyblyg, hybrid gyda staff wedi'u lleoli ar draws swyddfeydd ym Mangor, Conwy, Helygain, Wrecsam, Dolgellau, Llandrindod, Aberaeron a'r Drenewydd.

Mae'r ACGCC yn gyfrifol am reoli, arolygu, cynnal a chadw a gwella dros 1,000 cilomedr o ffyrdd yng ngogledd a chanolbarth Cymru, gan gynnwys twneli'r A55, dros 2,000 o strwythurau ffyrdd a llawer o asedau eraill. Ei brif waith yw cadw'r rhwydwaith ffyrdd i symud, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Mae'r tîm hefyd yn diogelu cynefinoedd naturiol ar ochr y ffordd ac yn lleihau effaith amgylcheddol gweithgareddau ar hyd y rhwydwaith ffyrdd. Rydym yn brysur yn cynllunio, plannu a gwarchod y tir i wneud yn siŵr bod pob taith yn wyrddach ac yn llawn bywyd gwyllt hapus.

Fel prentis neu hyfforddai proffesiynol efo ACGCC, fe fyddi di'n cael profiad gwerthfawr o weithio o fewn ein holl unedau a thimau, fel dy fod yn cael dealltwriaeth gadarn o sut mae'r sefydliad yn gweithio. Fe fyddi di'n cael profiad ymarferol ar draws ystod o dechnolegau modern, gyda chefnogaeth gweithwyr proffesiynol medrus a chyfleoedd go iawn i dyfu dy yrfa. Fe fyddi di hefyd yn ennill cymwysterau a hyfforddiant ychwanegol ochr yn ochr â dy brentisiaeth neu radd meistr.

## CYFLEOEDD PRENTISIAETH NEU CYNLLUN YFORY 2026

- Hyfforddai Proffesiynol Coedyddiaeth
- Prentis Coedyddiaeth
- Prentis Trydanol a Thechnoleg Priffyrdd
- Prentis Peirianneg Sifil
- Prentis Sifil Strwythurau

# HYFFORDDAI PROFFESIYNOL COEDYDDIAETH

## CRYNODEB O'R SWYDD

Bydd y rôl Hyfforddai Proffesiynol Coedyddiaeth yn cynnwys datblygu a chynnal prosesau a systemau sy'n sicrhau bod materion coedyddiaeth dechnegol a gwarchod coed yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol ar draws holl waith yr Asiant.

Bydd yr Hyfforddai Proffesiynol yn datblygu a chynnal prosesau sy'n sicrhau bod coedyddiaeth a gwarchod coed yn cael eu hystyried ym mhob maes gwaith. Byddant yn cynnal arolygon a pharatoi adroddiadau technegol ac yn helpu i reoli cyllidebau sy'n ymwneud â gwaith coed ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Bydd yr hyfforddai'n cydweithio â thimau mewnol a Llywodraeth Cymru, yn cynorthwyo gydag arolygiadau diogelwch coed ac yn defnyddio offer arbenigol fel PICUS a residrill. Byddant hefyd yn treulio amser mewn unedau eraill i ddeall gweithrediadau ehangach y sefydliad.

I rywun sydd yn ymarferol, yn sylwgar ac â diddordeb mewn coed, diogelwch a gwaith awyr agored, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd eisiau datblygu'n arweinydd yn y dyfodol ac sydd am weithio'n effeithiol gyda thimau technegol ac ecolegol i gefnogi rheoli coed a gwarchod yr ystâd feddal yn ddiogel ac yn broffesiynol.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr hyfforddai proffesiynol yma yn gweithio yn yr adran ACGCC, Gwasanaeth Newid Hinsawdd ac Amgylcheddol gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 3 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## GRADD MEISTR

**Mae angen Gradd mewn pwnc perthnasol, Gradd / lefel 6 mewn rheolaeth Coedyddiaeth / Coedwigaeth Drefol**

**Meistr Coedyddiaeth a Choedwigaeth Drefol yn Ganolfan Brifysgol Myerscough, dysgu o bell dros dair blynedd yn rhan-amser**

# GEIRDA RHEOLWR GWASANAETHAU YMGYNGHOROL IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

Mae buddsoddi mewn Hyfforddai Proffesiynol yn agor y drws i ddenu unigolion o safon uchel o amrywiaeth o gefndiroedd. Mae'n gyfle arddangos i grŵp o bobl uchelgeisiol na fyddent o bosib wedi ystyried y llwybr hwn wrth feddwl am eu gyrfa. Mae hyn yn helpu i adeiladu dyfodol cadarn i'r tîm, gan greu llwybr naturiol ar gyfer datblygiad a dilyniant, lle gall profiadau'r rhai sydd wedi bod yn y maes ers blynyddoedd gael eu trosglwyddo i genhedlaeth newydd

# HYFFORDDAI PROFFESIYNOL CYNNAL TIROEDD

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Hyfforddai Cynnal Tiroedd yn cynnig cyfle i ddatblygu sgiliau proffesiynol drwy gyfuno gwaith ymarferol awyr agored â thasgau cynllunio sy'n dylanwadu ar sut mae parciau, gerddi cyhoeddus ac ardaloedd gwyrdd Gwynedd yn cael eu cynnal a'u gwella, gan gyfrannu'n uniongyrchol at ansawdd yr amgylchedd lleol.

Bydd yr Hyfforddai Proffesiynol yn gweithio ar draws sawl gwasanaeth, gan ennill profiad mewn cynnal tiroedd, prosiectau bioamrywiaeth, gwaith peirianneg ymarferol a chefnogi cydymffurfiaeth mewn mynwentydd. Byddant yn delio â chleientiaid a'r cyhoedd, ymateb i waith brys fel llifogydd neu waith coed, ac yn dysgu blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar gymunedau Gwynedd. Bydd yr hyfforddai'n cyfuno gwaith swyddfa â gwaith ymarferol, gan ddatblygu sgiliau mewn garddwriaeth, bioamrywiaeth, peirianneg sifil, iechyd a diogelwch a gwasanaeth cwsmer mewn amgylchedd amrywiol a deinamig.

I rywun sydd yn ymarferol, trefnus ac yn mwynhau gweithio'n awyr agored, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd eisiau datblygu'n arweinydd y y dyfodol, sy'n gallu datrys problemau'n gyflym a blaenoriaethu tasgau i gefnogi prosiectau garddwriaeth, bioamrywiaeth a chynnal ardaloedd gwyrdd ar draws Gwynedd

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr hyfforddai proffesiynol yma yn gweithio yn yr adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 3 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## GRADD MEISTR

**Mae profiad ymarferol ym maes amaethyddiaeth a tiroedd yn ddymunol**

**Penderfynir ar y radd Meistr ar ôl cynnig swydd, gyda dewis prifysgol, cwrs a dull astudio priodol yn unol a'r rôl**

# HYFFORDDAI PROFFESIYNOL TRETHI A BUDD - DALIADAU

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Hyfforddai Proffesiynol Trethi a Budd-daliadau yn cefnogi gweinyddu ystod o wasanaethau trethi a budd-daliadau, prosesu grantiau a biliau, rhedeg adroddiadau ar systemau arbenigol, ac ymateb i ymholiadau, ohebiaeth ac apeliadau.

Bydd yr Hyfforddai Proffesiynol yn cefnogi archwiliadau mewnol ac allanol drwy baratoi dogfennau ac ymatebion, ac yn delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd ar faterion Budd-daliadau, Treth Cyngor a Threthi Annomestig. Bydd yr hyfforddai'n mynychu apeliadau budd-dal, helpu i baratoi dogfennau llys ac achosion sy'n ymwneud â thwyll neu ôl-ddyledion. Byddant yn cysgodi

Arolygwyr Trethi, cyfrannu at brosiectau'r gwasanaeth, casglu data, ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ennill profiad mewn unedau eraill o'r Adran Cyllid.

I rywun sydd yn drefnus, yn gyfforddus gyda data ac yn gallu delio'n sensitif â'r cyhoedd, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd eisiau datblygu fel arweinydd yn y dyfodol drwy brosesu gwybodaeth yn fanwl gywir, egluro materion cymhleth yn glir, a gweithio'n broffesiynol ar achosion trethi a budd-daliadau, gan gefnogi tasgau fel archwiliadau, apeliadau a rheoli gohebiaeth yn y maes.

### GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr hyfforddai proffesiynol yma yn gweithio yn yr adran Cyllid, Gwasanaethau Trethi a Budd-daliadau bydd disgwyl i'r hyfforddai weithio o'r swyddfa yn bennaf gyda'r opsiwn o hybrid ar adegau dros gytundeb o 3 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

### GRADD MEISTR

**Does dim angen gradd mewn pwnc penodol**

**IRRV Diploma (Lefel 5) cyn gwneud yr IRRV Honours (Lefel 6), dysgu o bell dros dair blynedd yn rhan-amser**

## LLWYDDIANT LLINOS - MERCHED MEWN PEIRIANNEG

Mae Llinos Angharad Jones, cyn-hyfforddai proffesiynol Cynllunio a Pheirianneg Trafnidiaeth gyda Chyngor Gwynedd (o dan Gynllun Yfory), yn falch o fod wedi cyfrannu at gau'r bwlch rhywedd yn y diwydiant. Ar ôl cwblhau ei hyfforddiant, cafodd Llinos ei phenodi yn Beiriannydd Cynorthwyol yn Adran Amgylchedd y Cyngor – cam cadarnhaol ymlaen i ferch mewn maes lle mae cynrychiolaeth fenywaidd dal yn isel.

Er gwaethaf cynnydd dros y degawd diwethaf, dim ond tua 16–17% o ferched sy'n gweithio mewn rolau peirianneg a thechnoleg ar draws y DU. Yn 2010, roedd y ffigwr tua 10%, felly mae'r cynnydd yn araf o'i gymharu â'r ~56% o ferched sy'n gweithio mewn proffesiynau eraill. Mae llwyddiant Llinos yn enghraifft ysbrydoledig o sut y gellir newid y darlun hwn.

"Dw i'n gobeithio fy mod i'n dangos i ferched y genhedlaeth nesaf ei bod hi'n fwy normal i ferched weithio ym maes cynllunio a pheirianneg trafnidiaeth. Mae angen cydbwysedd rhywedd ym mhob maes. Dw i'n ddiolchgar iawn am y cyfle i newid gyrfa drwy Gynllun Yfory a fy mod i'n gallu gwneud rhywbeth dw i'n mwynhau yn fy ngwaith o ddydd i ddydd."

**Llongyfarchiadau mawr i Llinos am arwain y ffordd a dangos bod llwyddiant i ferched mewn meysydd traddodiadol o dan gynrychiolaeth yn gwbl bosibl.**

## CANLLAWIAU GWNEUD CAIS CYNLLUN YFORY

Hoffem i chi strwythuro eich cais trwy ddilyn y penawdau sydd yn cyd-fynd ag egwyddorion y cynllun gan gadw at y nifer geiriau'n ofalus. Dim mwy na 150 o eiriau i bob pwynt.

## PWYNTIAU PWYSIG

- Gan fod cyfathrebu a chywirdeb iaith yn y Gymraeg yn hanfodol, rydym yn eich annog i gwblhau'r ffurflen yn y Gymraeg
- Bydd dilyn strwythur a'r canllawiau uchod yn fanteisiol i'ch cais. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i hyn pan fyddwn yn tynnu rhestr fer
- Pan fyddwch yn disgrifio eich enghreifftiau, dylech fanylu ar beth a wnaethoch a'r effaith a gafodd
- Byddwn yn cysylltu â chi drwy eich ffonio os byddwch yn llwyddiannus

## STRWYTHUR CAIS

- Eich rheswm dros ymgeisio i fod yn hyfforddai proffesiynol yn y maes penodol yma - Disgrifiwch pam ydych chi eisiau bod yn hyfforddai proffesiynol yn y Cyngor ac yn y maes penodol yma.
- Dangos y potensial i fod yn arbenigwr neu yn arweinydd - Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi ddangos parodrwydd i arwain eraill e.e. mewn sefyllfa addysgiadol (ysgol, coleg, prifysgol), chwaraeon, yn gymdeithasol, yn gymunedol neu mewn gwaith.
- Cyflawni gwaith o’r safon uchaf - Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi gyflawni gwaith o’r safon uchaf. Gall hyn gynnwys amser pan wnaethoch chi gyflwyno prosiect, dangos gwytnwch a dyfalbarhad neu ddadansoddi a datrys problem.
- Cydweithio efo pobol yn effeithiol- Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi gydweithio efo pobol yn effeithiol neu ddod a phobol at ei gilydd. Beth oedd yr effaith a’r canlyniad?
- Yn barod i Herio - Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi ddangos eich parodrwydd i herio pethau yn agored ac yn onest. Beth oedd yr effaith a’r canlyniad?
- Blaenoriaethu llesiant - Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi flaenoriaethu eich llesiant chi neu eraill. Gall hyn gynnwys eich ffordd chi o gadw’r balans rhwng bywyd a gwaith, cefnogi llesiant pobol eraill neu sut yr ydych yn sicrhau iechyd meddwl a chorff da.
- Dangos lefel uchel o Hunan ymwybyddiaeth - Disgrifiwch un digwyddiad pan wnaethoch chi ddangos lefel uchel o hunan ymwybyddiaeth. Gall hyn gynnwys enghraifft o weithio’n annibynnol, bod yn gydwybodol, bod yn frwdfrydig neu dangos dealltwriaeth o gynaladwyedd wrth wneud penderfyniadau.

# GEIRDA SWYDDOG MARCHNATA AC YMGYSYLLTU TALENT A PHRENTISIAETHAU

“Rwy’n credu bod y cynllun prentisiaeth a’r cynllun Graddedigion yn gyfle gwych i bobl leol ddatblygu’n broffesiynol ac yn bersonol, gan agor drysau i yrfa mewn llywodraeth leol. Maen nhw’n cynnig profiadau ymarferol, hyfforddiant gwerthfawr, a chefnogaeth barhaus sy’n helpu i feithrin sgiliau a hyder i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ein cymunedau”

# CYFLEOEDD PRENTISIAETHAU 2026

Prentis Busnes a Gweinyddiaeth -Hybu Annibyniaeth

Prentis Peirianneg Sifil

Prentis Cyllid – Archwilio Mewnol

Prentis Trethi a Budd-daliadau

Prentis Llwybrau a Mynediad

Prentis Busnes a Gweinyddiaeth – Pensiynau

Prentis Peirianneg Sifil Strwythurau

Prentis Peirianneg Sifil Priffyrdd

Prentis Gradd Dadansoddi Data a Systemau

Prentis Gwasanaeth i Gwsmeriaid

Prentis Trydanol a Thechnoleg Priffyrdd

Prentis Coedyddiaeth

Prentis Busnes a Gweinyddiaeth – Arlwyo a Glanhau

Prentis Busnes a Marchnata

Prentis Prynu a Gwerthu

Prentis Busnes a Gweinyddiaeth – Gofal Cymdeithasol

Prentis Marchnata Digidol

# GOFYNION SYLFAENOL PRENTISIAETHAU

16+ mlwydd oed

Yn gymwys i weithio yng Nghymru

Ddim mewn addysg llawn amser yn barod (ysgol, chweched dosbarth, coleg, prifysgol)

## PWRPAS

Gwnewch y dewis doeth, dewiswch brentisiaeth yng Nghyngor Gwynedd

Mae prentisiaethau yn gyfle i chi ddatblygu eich gyrfa drwy weithio gyda phobl brofiadol a derbyn cymwysterau a chyflog yr un pryd!

## PA LEFEL?

| PRENTISIAETH | LEFEL | YN GYFWERTH A |
|---|---|---|
| Prentisiaeth Sylfaen | Lefel 2 | TGAU A* i C / 9-4*, Tystysgrif neu Ddiploma Lefel 2, NVQ Leefel 2 |
| Prentisiaeth | Lefel 3 | 2 Lefel A, Diploma Lefel 3, NVQ Lefel 3 |
| Prentisiaeth Uwch | Lefel 4 | Tystysgrif Addysg Uwch (CertHE), HNC, NVQ Lefel 4 |
| Prentisiaeth Uwch | Lefel 5 | Diploma Addysg Uwch (DipHE), Gradd Sylfaen, HND, NVQ Lefel 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Prentisiaeth Gradd | Lefel 6 | Gradd Baglor (BA/Bsc Hons), Diploma neu dystysgrif Lefel 6, NVQ Lefel 6 |

## CYFLOG

| OED | YN FISOL | YN FLYNYDDOL |
|---|---|---|
| O dan 18 | £1,286.19 | £15,434.24 |
| 18 – 20 | £1,744.39 | £20,932.69 |
| 21+ | £2,043.43 | £24,521.15 |

# PRENTIS BUSNES A GWEINYDDIAETH   HYBU ANNIBYNIAETH

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Busnes a Gweinyddiaeth – Hybu Annibyniaeth yn gyfle i ddatblygu sgiliau ymarferol a phersonol drwy gyfuno gwaith technegol a chymunedol, gan gefnogi trigolion i fyw'n fwy annibynnol drwy ddefnyddio technoleg gynorthwyol a gwasanaethau teleofal.

Byddwch yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r dechnoleg teleofal a chymryd rhan mewn gosod ac atgyweirio offer sy'n cefnogi pobl yn eu cartrefi. Byddwch yn cyfuno tasgau gweinyddol â gwaith ymarferol drwy drefnu apwyntiadau, delio ag ymholiadau, rheoli stoc ac offer, a chynnal systemau gwybodaeth yn gywir. Byddwch yn cysgodi staff i ddysgu am wahanol unedau busnes, teithio gyda'r tîm i apwyntiadau ar draws y sir, a chefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo annibyniaeth megis taliadau uniongyrchol neu fentrau digidol.

I rywun sy'n drefnus, yn ymarferol ac â diddordeb mewn technoleg a gwaith cymorth cymunedol, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd eisiau cyfuno tasgau gweinyddol â gwaith teleofal, rheoli gwybodaeth, cyfathrebu'n glir a gweithio'n hyderus fel rhan o dîm i gefnogi pobl i fyw'n fwy annibynnol.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol, Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

**Bydd angen gwiriad dbs ar gyfer y swydd yma bydd y cyngor yn gyfrifol am wneud hyn**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Sgiliau Digidol ar gyfer Busnes lefel 2 & 3, dysgu seiliedig ar waith sef defnyddio portffolio electronig a chyfarfodydd Teams gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# PRENTIS BUSNES A GWEINYDDIAETH PENSIYNAU

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Busnes a Gweinyddiaeth – Pensiynau yn gyfle i ddysgu sgiliau proffesiynol ym maes pensiynau, gan weithio gyda thîm profiadol i helpu'r Gronfa Bensiwn redeg yn effeithiol.

Byddwch yn helpu i ymateb i ymholiadau gan aelodau a chyflogwyr, a chydweithio â chynghorwyr a rheolwyr buddsoddi i gefnogi gwaith y Cynllun Pensiwn. Byddwch yn dysgu am y fframwaith statudol sy'n llywodraethu'r CPLlL ac yn cynorthwyo gyda phrosiectau gwelliant, digideiddio a gofynion llywodraethu newydd. Byddwch yn paratoi papurau, cymryd cofnodion a chydlynu cyfarfodydd y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiwn. Byddwch yn helpu i ddiweddaru dogfennau, adolygu perfformiad buddsoddi ac adeiladu dealltwriaeth o egwyddorion ESG, gan ddilyn polisïau'r Cyngor ar ddiogelwch, cydraddoldeb a diogelu data.

I rywun sydd yn drefnus, gyda llygad am fanylder ac â diddordeb mewn llywodraethu, data a gwaith gweinyddol, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sy'n gallu cyfathrebu'n glir, dadansoddi gwybodaeth a chefnogi prosesau pensiwn drwy reoli dogfennau, trefnu cyfarfodydd a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran Cyllid, Gwasanaethau Pensiynau gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Gweinyddu Busnes Lefel 3, dysgu seiliedig ar waith sef defnyddio portffolio electronig a chyfarfodydd Teams gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# GEIRDA PRENTIS PEIRIANNEG SIFIL

"Roeddwn wedi blino ar addysg llawn amser a doeddwn i ddim eisiau mynd i'r brifysgol. Roeddwn i eisiau profiad gwaith yn y sector peirianneg. Clywais am y cyfleoedd prentisiaeth gyda NMWTRA a phenderfynais wneud cais. Hyd yn hyn yn fy mhrentisiaeth, rwyf wedi cael digon o gyfleoedd hyfforddi sydd wedi fy helpu i ddatblygu fy ngwybodaeth a'm sgiliau. Fe wnes i hefyd fynychu digwyddiad a drefnwyd gan NMWTRA a oedd yn croesawu Llywydd y Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth (CIHT), a chymerais ran mewn Ymarfer Gwydnwch Twnnel, roedd y ddau yn ddigwyddiadau da iawn i'w mynychu. Rhoddodd y rhain well dealltwriaeth i mi o sut mae'r diwydiant yn gweithio yn ymarferol, ac yn caniatáu i mi ddysgu camau sy'n gysylltiedig â senario bywyd go iawn"

# PRENTIS TRYDANOL A THECHNOLEG PRIFFYRDD

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Trydanol a Thechnoleg Priffyrdd yn gyfle i ennill profiad ymarferol o reoli, arolygu a chynnal rhwydwaith y cefnffyrdd drwy weithio gyda timau ar draws ystod o ddisgyblaethau peirianyddol ac amgylcheddol.

Byddwch yn helpu i gefnogi gwaith technegol yr Uned Rheoli Rhwydwaith, yr Uned Twneli a Thechnoleg a'r Uned Busnes a Phrosiectau drwy gymryd rhan mewn arolygiadau trydanol ac asedau technoleg priffyrdd. Byddwch yn dysgu adnabod diffygion, peryglon a risgiau diogelwch, ac yn cynorthwyo gyda chynnal a chadw strwythurol a systemau twneli. Byddwch hefyd yn helpu i gynllunio a chefnogi prosiectau, arsylwi ar weithrediadau byw gyda'r Gwasanaeth Swyddog Traffig. Byddwch hefyd yn cefnogi tasgau gweinyddol sy'n sicrhau bod y rhwydwaith yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn unol â safonau Llywodraeth Cymru.

I rywun sydd â meddwl technegol, sy'n frwdfrydig am systemau trydanol ac offer priffyrdd, ac sydd eisiau datblygu sgiliau arsylwi manwl a datrys problemau, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sy'n hyderus gyda thechnoleg, eisiau dysgu asesu risgiau ac arolygu asedau, ac sydd eisiau datblygu sgiliau ymarferol mewn cynnal a chadw twneli a rhwydweithiau cefnffyrdd.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Peirianneg Lefel 3, ar gael yn Llangefni, Y Rhyl neu dysgu seiliedig ar waith sef defnyddio portffolio electronig a chyfarfodydd Teams gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# PRENTIS PEIRIANNEG SIFIL

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Peirianneg Sifil  ACGCC yn gyfle i gael profiad ymarferol o gynnal rhwydwaith cefnffyrdd a thwneli, gan ddysgu gan dimau arbenigol ac ennill sgiliau technegol a pheirianyddol gwerthfawr.

Byddwch yn helpu i gefnogi gwaith yr Uned Rheoli Rhwydwaith, yr Uned Twneli a Thechnoleg, a'r Uned Busnes a Phrosiectau drwy gymryd rhan mewn arolygiadau priffyrdd, archwiliadau strwythurol a gwaith cynnal a chadw hanfodol. Byddwch yn dysgu sut i adnabod risgiau diogelwch ac asedau diffygiol ar y rhwydwaith cefnffyrdd, yn ogystal â chefnogi cynllunio a rheoli prosiectau. Byddwch yn helpu gyda chynnal a chadw twneli, deall gofynion amgylcheddol a statudol, a datblygu sgiliau technegol megis dylunio peirianneg sifil, defnyddio AutoCAD ac arolygu meintiau. Byddwch hefyd yn cynorthwyo gyda chaffael contractau, tasgau gweinyddol a chefnogi'r Gwasanaeth Swyddog Traffig wrth reoli digwyddiadau.

I rywun sydd yn ymarferol ac â diddordeb mewn datrys problemau technegol, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd eisiau datblygu sgiliau dadansoddi gwybodaeth, arsylwi strwythurau a seilwaith yn ofalus ac asesu risgiau'n hyderus wrth gefnogi cynnal a chadw a datblygu rhwydwaith cefnffyrdd a thwneli.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Tystysgrif Genedlaethol Uwch BTEC Lefel 3+ Pearson mewn Peirianneg Sifil trwy Grwp Colegau NPTC (Coleg Brecon Beacons neu Coleg Afan)**

# PRENTIS PEIRIANNEG SIFIL STRWYTHURAU

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Peirianneg Sifil Strwythurau yn gyfle i'r prentis ennill profiad ymarferol ar draws timau peirianneg, strwythurau, twneli a rheoli rhwydwaith wrth gefnogi gwaith cynnal, arolygu a rheoli'r cefnffyrdd.

Byddwch yn helpu i gynnal ac arolygu strwythurau priffyrdd drwy gymryd rhan mewn arolygiadau technegol ac archwiliadau pontydd, waliau a thwneli. Byddwch yn dysgu adnabod diffygion a risgiau diogelwch, ac yn cefnogi gwaith cynnal a chadw ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd. Byddwch yn helpu i gynllunio a chefnogi prosiectau, arsylwi ar weithrediadau'r Gwasanaeth Swyddog Traffig, ac yn datblygu sgiliau peirianneg sifil megis AutoCAD, arolygu meintiau a chaffael contractau. Byddwch hefyd yn cynorthwyo gyda thasgau gweithredol a gweinyddol sy'n sicrhau rheolaeth effeithiol o'r rhwydwaith.

I rywun sydd gyda llygad am fanylder ac â diddordeb mewn strwythurau, diogelwch ac isadeiledd, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd eisiau datblygu sgiliau arsylwi, dadansoddi risgiau, gweithio'n drefnus ar arolygiadau a chynnal a chadw pontydd, waliau a thwneli.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran ACGCC gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth Uwch - Adeiladu / Rheoli Safle Peirianneg Lefel 3+ gyda Coleg Llandrillo-yn-Rhos neu Llangefni 1 diwrnod yr wythnos, 09:00 - 16:00 ynghyd ag amser asesu ychwanegol yn y gwaith**

# PRENTIS COEDYDDIAETH

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Coedyddiaeth yn gyfle i brentis ddysgu ac ennill profiad mewn rheoli coed, gwrychoedd ac ystâd feddal ar y rhwydwaith cefnffyrdd, gan weithio gyda thîm arbenigol i gefnogi arolygiadau, cynnal a chadw a rheoli rhaglenni gwaith.

Byddwch yn helpu i reoli coed ac ystâd feddal ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd drwy gymryd rhan mewn arolygon diogelwch ac archwiliadau i adnabod peryglon ac iechyd coed. Byddwch yn cofnodi data'n ddigidol, asesu risgiau a diweddaru systemau fel ENVIS. Byddwch yn cynorthwyo gyda monitro plâu, clefydau a rhywogaethau ymledol, yn ogystal â chefnogi gwaith bioamrywiaeth drwy nodi rhywogaethau gwarchodedig a safleoedd sensitif. Byddwch hefyd yn helpu i gynllunio a blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw ac yn ymgysylltu â chontractwyr ac ecolegwyr i sicrhau rheolaeth amgylcheddol effeithiol.

I rywun sydd yn ymarferol, yn sylwgar ac â diddordeb mewn coed, bioamrywiaeth a gwaith awyr agored, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd eisiau datblygu sgiliau arsylwi'n ofalus, asesu risgiau a gweithio'n hyderus gyda thimau technegol ac ecolegol i gefnogi rheoli coed ac ystâd feddal yn ddiogel ac yn effeithiol.

GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran ACGCC gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Coedwigaeth a Chefn Gwlad Lefel 2+, dysgu o bell gyda Coleg Cambria**

# PRENTIS CYLLID   ARCHWILIO MEWNOL

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Cyllid – Archwilio Mewnol yn gyfle gwych i unigolyn chwilfrydig, trefnus ac ymroddedig sydd eisiau dechrau gyrfa ym maes archwilio. Byddwch yn dysgu sut mae archwilio'n helpu i wella gwasanaethau, rheoli risgiau a sicrhau bod prosesau'n gweithio'n iawn, gan weithio ochr yn ochr ag archwilwyr profiadol.

Byddwch yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth o systemau rheolaeth fewnol a safonau Archwilio Mewnol drwy gymryd rhan mewn gwaith archwilio ymarferol, dadansoddi data a chasglu tystiolaeth. Byddwch yn cryfhau sgiliau cyfathrebu drwy gynnal trafodaethau â swyddogion a helpu llunio adroddiadau clir ar ganfyddiadau. Wrth arsylwi ac yna gyfrannu at archwiliadau llai cymhleth, byddwch yn dysgu sut i werthuso prosesau, risgiau a rheolaethau ar draws y Cyngor, gan feithrin hyder a sgiliau ymarferol wrth symud ymlaen i dasgau mwy annibynnol.

I rywun sydd gyda llygad am gywirdeb, yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddatblygu sgiliau dadansoddi data, meddwl yn feirniadol a chyfathrebu'n glir, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn trefnus sy'n gallu gweithio'n ofalus wrth gefnogi gwaith archwilio ar draws y cyngor.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran Cyllid, Gwasanaeth Archwilio Mewnol gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref, swyddfa ac allan yn y gymuned dros 2 mlynedd.**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifydda (AAT) mewn Cyfrifyddu Lefel 2 neu Lefel 3 – yn ddibynnol ar gymwysterau gyda cyfle i astudio Diploma Lefel 4 mewn Cyfrifyddu Proffesiynol a llwybr i addysg uwch gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# PRENTIS PEIRIANNEG SIFIL PRIFFYRDD

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Peirianneg Sifil Priffyrdd yn gyfle gwerthfawr i brentis ddatblygu sgiliau peirianneg sifil drwy gysgodi a chefnogi peirianwyr profiadol wrth gyfrannu at gynllunio, cynnal a gwella seilwaith hanfodol Gwynedd ar draws Arfon, Dwyfor a Meirionydd.

Byddwch yn helpu i weithio ar draws Arfon, Dwyfor a Meirionydd drwy gylchdroi rhwng ardaloedd i ddeall gweithgareddau a blaenoriaethau pob tîm. Byddwch yn cefnogi timau lleol wrth gyflawni rhaglenni gwaith y Gwasanaeth Priffyrdd ac yn cysgodi Peirianwyr Ardal i ddysgu sut mae gwaith cynnal a chadw a phrosiectau seilwaith yn cael eu cynllunio, eu rheoli a'u cyflawni. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o sut mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu gwaith ar draws y sir, ac yn cymryd rhan mewn tasgau ymarferol sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ffyrdd ac isadeiledd hanfodol.

I rywun sydd yn ymarferol, yn frwdfrydig am beirianneg ac yn gallu gweithio'n drefnus, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sy'n mwynhau datrys problemau, gweithio'n rhan o dîm, cyfathrebu'n glir, ac yn gallu dysgu'n gyflym wrth gefnogi peirianwyr i gynllunio, rheoli a chynnal seilwaith ffyrdd ac isadeiledd ar draws Gwynedd.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, Gwasanaeth Priffyrdd gyda threfniadau gweithio yn y brif swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Gyrfaoedd Proffesiynol ym maes Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig - Lefel 3, gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# PRENTIS TRETHI A BUDD-DALIADAU

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl  Prentis Trethi a Budd-daliadau yn gyfle i unigolyn trefnus ddysgu a datblygu sgiliau gweinyddol ac ariannol wrth weithio ar y rheng flaen i gefnogi gweinyddu a chasglu trethi lleol a budd-daliadau i drigolion Gwynedd.

Byddwch yn helpu i weithio ar wasanaeth rheng flaen y Cyngor i weinyddu a chasglu Treth Cyngor a Threthi Annomestig, gan ymateb i ymholiadau drwy lythyrau, ffôn, e-bost ac wyneb yn wyneb. Byddwch yn prosesu ceisiadau i addasu cyfrifon, eithriadau, disgownts a chytundebau talu, ac yn cefnogi'r drefn adennill ôl-ddyledion drwy baratoi dogfennau ar gyfer y llysoedd. Byddwch hefyd yn cynorthwyo i asesu ceisiadau Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth Cyngor a budd-daliadau addysg, yn ogystal â chefnogi gwaith gweinyddu lefi a systemau refeniw.

I rywun sydd yn drefnus, gyda llygad fanwl ac yn hyderus wrth ddelio â phobl, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sy'n gallu prosesu gwybodaeth ariannol yn ofalus, cyfathrebu'n glir â chwsmeriaid, rheoli ceisiadau a dogfennau'n effeithiol, a gweithio'n gyfrifol fel rhan o dîm i gefnogi gweinyddu trethi lleol a budd-daliadau.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr prentis yma yn gweithio yn yr adran Cyllid, Gwasanaeth Trethi a Budd-daliadau gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

**BYDD ANGEN GWIRIAD DBS AR GYFER Y SWYDD YMA BYDD Y CYNGOR YN GYFRIFOL AM WNEUD HYN**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Gweinyddu Busnes Lefel 3, dysgu o bell  - darperir mwyafrif yr hyfforddiant yn y gweithle, ond mae'n bosibl y bydd angen mynychu sesiynau yn y coleg i gwblhau tasgau theori a phrofion gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# PRENTIS BUSNES A GWEINYDDIAETH   ARLWYO A GLANHAU

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Busnes a Gweinyddiaeth – Arlwyo a Glanhau  yn gyfle i ddatblygu sgiliau ymarferol ym maes arlwyo a glanhau, cysgodi staff a chyfrannu at gefnogi ochr weinyddol gwasanaeth allweddol i ysgolion Gwynedd.

Byddwch yn cysgodi staff arlwyo ac ennill profiad uniongyrchol o waith arlwyo a glanhau o ddydd i ddydd. Byddwch yn ymateb i ymholiadau gan ysgolion a thimau arlwyo a glanhau, gan helpu i drefnu staff llanw a chynnal gwasanaeth esmwyth. Byddwch yn cefnogi cyfathrebu proffesiynol drwy ateb galwadau ac ysgrifennu negeseuon, yn ogystal â chynorthwyo gyda hyrwyddo gwasanaethau drwy ymgyrchoedd a chyfryngau cymdeithasol, ac yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ymarferol mewn arlwyo, glanhau ac hylendid bwyd.

I rywun sydd yn drefnus, yn gyfeillgar ac yn hyderus wrth gyfathrebu, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sy'n gallu gweithio'n ymarferol mewn amgylchedd brysur, cefnogi tasgau arlwyo a glanhau, ymateb i ymholiadau, trefnu gwaith staff llanw, cofnodi a rheoli data'n gywir, a chydweithio'n effeithiol â thimau i gynnal safonau uchel o wasanaeth ac hylendid.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr prentis yma yn gweithio yn yr adran Addysg , Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

**Bydd angen gwiriad dbs ar gyfer y swydd yma bydd y cyngor yn gyfrifol am wneud hyn**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Gweinyddu Busnes Lefel 3, darperir mwyafrif yr hyfforddiant yn y gweithle, ond mae'n bosibl y bydd angen mynychu sesiynau yn y coleg i gwblhau tasgau theori a phrofion gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# GEIRDA CYN PRENTIS BUSNES A GWEINYDDIAETH

**"Prentisiaeth - Gweinyddu Busnes Lefel 3, darperir mwyafrif yr hyfforddiant yn y gweithle, ond mae'n bosibl y bydd angen mynychu sesiynau yn y coleg i gwblhau tasgau theori a phrofion gyda Grŵp Llandrillo Menai"**

# PRENTIS GRADD DADANSODDI DATA A SYSTEMAU

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Gradd Dadansoddi Data a Systemau yn gyfle i ddatblygu sgiliau technegol a dadansoddol mewn technoleg a data, gan weithio gyda systemau modern a thimau ar draws Cyngor Gwynedd a Môn.

Byddwch yn helpu i ddefnyddio systemau rheoli gwybodaeth i drosglwyddo, storio a rheoli data ysgolion, gan gynnal ansawdd data drwy wirio, prosesu a sicrhau cysondeb. Byddwch yn datblygu sgiliau technegol mewn Excel, Power BI, SQL a systemau addysg fel Bromcom ac Ysgol ar Un Dudalen, yn ogystal â chefnogi datblygu dulliau deallusrwydd artiffisial mewn ffordd atebol. Byddwch yn gweithio gyda rheolwyr ac adrannau i gasglu gwybodaeth a chefnogi prosiectau digidol.

I rywun sydd gyda llygad fanwl am gywirdeb, yn hyderus gyda data ac yn awyddus i ddatblygu sgiliau technegol mewn systemau gwybodaeth, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sydd eisiau datblygu gallu i ddadansoddi a rheoli data, cefnogi datrysiadau digidol ac AI, a chydweithio'n effeithiol â thimau ar draws Gwynedd a Môn i wella ansawdd data a systemau.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr prentis yma yn gweithio yn yr adran Addysg, Gwasanaeth Uned Ddata Addysg gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 3 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn ddymunol ar gyfer y swydd**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth Gradd - Gradd-Brentisiaeth Gwyddor Data Gymhwysol (BSc) trwy Grŵp Llandrillo Menai a Prifysgol Bangor**

# LLWYDDIANT NED - PRENTIS TECHNEGYDD FFLYD

Ymunodd Ned a'r Cyngor fel prentis yn 2024, ac erbyn hyn mae'n dod at ddiwedd ei brentisiaeth ac yn cael cynnig swydd barhaol gyda'r gwasanaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC - Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy.

Yn ystod ei gyfnod, mae Ned wedi rhagori ym mhob agwedd ar ei waith. Mae ei ymroddiad, ei agwedd broffesiynol ac ansawdd ei grefftwaith wedi gwneud argraff wirioneddol ar bawb.

Dewisodd Ned lwybr prentisiaeth oherwydd ei angerdd naturiol dros geir a ralïo – maes mae'n cymryd rhan ynddo y tu allan i'r gwaith hefyd. Roedd y cyfle i ddysgu wrth wneud, datblygu sgiliau mewn gweithle prysur a gweithio tuag at gymhwyster swyddogol yn apelio ato, ac mae'n amlwg ei fod wedi ffynnu.

**Da iawn ti, Ned – rydyn ni'n falch iawn o dy lwyddiant!**

# PRENTIS MARCHNATA DIGIDOL

CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Marchnata Digidol yn gyfle gwych i brentis creadigol ddatblygu sgiliau marchnata digidol drwy greu cynnwys ac ymgyrchoedd sy'n ysbrydoli trigolion a busnesau Gwynedd i ailgylchu mwy ac ymgysylltu'n well â'n gwasanaethau.

Byddwch yn helpu i wneud ailgylchu'n fwy amlwg ac apelgar ar-lein drwy greu a rhannu cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol sy'n annog pobl i ailgylchu. Byddwch yn cyfathrebu'n glir â'r cyhoedd am unrhyw oedi neu broblemau casglu, ac yn cefnogi marchnata'r Gwasanaeth Gwastraff Masnachol drwy greu negeseuon a deunyddiau deniadol i fusnesau. Byddwch yn gweithio gyda swyddogion i gynllunio ac ymgymryd ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, yn helpu'r tîm i fod yn fwy rhagweithiol wrth gyfathrebu, ac yn diweddaru cynnwys y wefan i sicrhau ei fod yn gyfoes, hawdd ei ddeall ac yn addas i bawb.

I rywun sydd yn greadigol, yn hyderus gyda chyfryngau cymdeithasol ac yn gallu cyfathrebu'n glir, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sy'n mwynhau creu cynnwys digidol, gweithio gyda data, sydd eisiau datblygu sgiliau cynllunio ymgyrchoedd, hyrwyddo negeseuon ailgylchu a gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â thrigolion a busnesau.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran Amgylchedd, Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol Lefel 3, cymysgedd o dysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# PRENTIS BUSNES A MARCHNATA

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Busnes a Marchnata yn cefnogi gwaith dyddiol Parc Padarn Llanberis drwy ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o safon uchel, cynorthwyo gyda thasgau swyddfa a chyfrannu at greu cynnwys marchnata. Byddwch yn ateb ymholiadau, diweddaru cofnodion, rheoli archebion a helpu i drefnu digwyddiadau sy'n gwella profiad ymwelwyr ac yn hyrwyddo gweithgareddau'r parc ynghyd a Pharc Glynllifon.

Byddwch yn helpu i gefnogi gweithgareddau dyddiol y parc drwy ddarparu cymorth i ymwelwyr, ysgolion a grwpiau cymunedol. Bydd y rôl yn cynnwys tasgau gweinyddol megis ffeilio, mewnbynnu data a phrosesu dogfennau, yn ogystal â chyfrannu at gynnwys marchnata a diweddaru cyfryngau cymdeithasol. Byddwch hefyd yn cefnogi trefnu digwyddiadau ac yn datblygu sgiliau technegol drwy ddefnyddio systemau archebu a meddalwedd swyddfa. Dros yr haf, cewch hefyd brofiad ymarferol fel warden.

I rywun sydd yn drefnus, yn hyderus gyda gwasanaeth cwsmeriaid ac yn awyddus i ddatblygu sgiliau busnes a marchnata, mae'r rôl hon yn cynnig profiad amrywiol mewn gweinyddu, marchnata a gwaith ymarferol yn y parc.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran Economi a Chymuned, Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gwledig gyda threfniadau gweithio yn y swyddfa, ar safle ac yn y gymuned dros gytundeb o 2 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Gweinyddu Busnes Lefel 2, cymysgedd o dysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# PRENTIS LLWYBRAU A MYNEDIAD

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Llwybrau a Mynediad yn cefnogi'r tîm drwy helpu gyda gwaith arolygu, casglu gwybodaeth am gyflwr llwybrau, a chynorthwyo gyda gwaith ymarferol.

Byddwch yn helpu i gynnal a chyflawni gwaith hawliau tramwy a rheoli cefn gwlad yn ddiogel ac yn effeithlon, gan ddilyn arferion iechyd a diogelwch bob amser. Byddwch yn gofalu am gerbydau, peiriannau ac offer, cynnal arolygon llwybrau, cadw cofnodion cywir ac adrodd ar waith a chynnydd. Byddwch yn cefnogi gweithredu cynlluniau gwella mynediad, ac yn cynorthwyo swyddogion a gwirfoddolwyr gyda thasgau dyddiol ar y safleoedd a'r llwybrau. Bydd disgwyl i chi gyfrannu at eich datblygiad eich hun, cymryd dyletswyddau rhesymol eraill, ac adrodd unrhyw bryderon diogelu.

I rywun sydd yn drefnus, yn ymarferol ac â diddordeb mewn gweithio yn yr awyr agored, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sy'n gallu dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus, cadw cofnodion cywir ac sy'n barod i gefnogi arolygu llwybrau, cynnal gwaith hawliau tramwy a chydweithio'n effeithiol gyda swyddogion a gwirfoddolwyr.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad gyda threfniadau gweithio yn y swyddfa, ar safle ac yn y gymuned dros gytundeb o 2 mlynedd**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Cadwraeth Amgylcheddol Lefel 2, Mae'r hyfforddiant technegol yn cael ei ddarparu yn y coleg un diwrnod yr wythnos ac mae'n cynnwys amser mewn gweithdai ymarferol Grŵp Llandrillo Menai**

# PRENTIS GWASANAETH I GWSMERIAID

CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Gwasanaeth i Gwsmeriaid yn gyfle i fod wrth galon rhai o ddigwyddiadau pwysicaf bywyd pobl Gwynedd, gan ddarparu gwasanaeth gweinyddol o safon uchel ym maes seremonïau a chynorthwyo cofrestryddion gyda genedigaethau, marwolaethau a phriodasau.

Byddwch yn helpu i ddarparu gwasanaeth proffesiynol o ansawdd uchel i gwsmeriaid mewnol ac allanol drwy'r ffôn, e-bost ac wyneb yn wyneb. Bydd y rôl yn cynnwys blaenoriaethu gwaith yn effeithiol wrth symud rhwng tasgau gweinyddol a chefnogi cwsmeriaid. Byddwch yn rhoi cyngor ar ofynion priodasau a phartneriaethau sifil, trefnu apwyntiadau, a chefnogi'r Cydlynydd Seremonïau drwy sicrhau bod dogfennau a threfniadau cyn seremoni yn gywir. Byddwch hefyd yn gwirio manylion lleoliadau ac amseroedd, cynorthwyo gyda dyletswyddau cofrestru gan gynnwys chwilio cofnodion hanesyddol, a chyfrannu at waith tîm ehangach.

I rywun sy'n drefnus, yn hyderus wrth ymdrin â'r cyhoedd ac yn gallu blaenoriaethu'n effeithiol, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn gyda sgiliau cyfathrebu rhagorol, llygad am fanylion a'r gallu i weithio'n broffesiynol wrth gefnogi seremonïau, cofrestru a thasgau gweinyddol o ddydd i ddydd.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd y prentis yma yn gweithio yn yr adran Gwasanaethau Corfforaethol, Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer gyda threfniadau gweithio yn y swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Gwasanaeth i Gwsmeriaid Lefel 3, caiff y fframwaith ei gyflwyno yn y gweithle. Mae'n bosib y bydd angen i ddysgwyr fynychu'r Coleg fel y cytunir â'r Aseswyr gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# PRENTIS BUSNES A GWEINYDDIAETH – GOFAL CYMDEITHASOL

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Busnes a Gweinyddiaeth – Gofal Cymdeithasol yn gyfle i gael profiad eang ar draws gwasanaethau gofal, dysgu gan weithwyr proffesiynol, datblygu sgiliau gweinyddol a data, a chyfrannu at brosiectau sy'n cefnogi pobl fregus.

Byddwch yn helpu i gefnogi'r adran drwy ddefnyddio systemau gweinyddu a chofnodi data'n gywir, gan drin gwybodaeth sensitif yn ddiogel. Byddwch yn ymateb i geisiadau gan dimau rheng flaen a phartneriaid, yn trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau ac yn darparu cefnogaeth weinyddol pan fo angen. Byddwch hefyd yn helpu gyda chyfeiriadau diogelu ac yn cyfrannu at waith llywodraethu gwybodaeth. Yn ogystal, cewch gymryd rhan mewn prosiectau a chydweithio â thimau gwahanol i ddeall sut mae'r adran yn gweithio, gan gysgodi gweithwyr proffesiynol a dysgu am feysydd fel cyllid, contractau, comisiynu a sicrwydd ansawdd.

I rywun sydd yn drefnus, yn ofalus wrth drin gwybodaeth ac yn hyderus wrth gyfathrebu, mae'r rôl hon yn addas i unigolyn sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau gweinyddol, cofnodi data'n gywir, ymateb i geisiadau'n broffesiynol ac adeiladu dealltwriaeth o wasanaethau gofal drwy weithio'n agos â thimau arbenigol.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr prentis yma yn gweithio yn yr adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Gwasanaeth Busnes gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn ddymunol ar gyfer y swydd**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Sgiliau Digidol ar gyfer Busnes Lefel 3, dysgu seiliedig ar waith sef defnyddio portffolio electronig a chyfarfodydd Teams gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# PRENTIS PRYNNU A GWERTHU

## CRYNODEB O'R SWYDD

Mae'r rôl Prentis Prynnu a Gwerthu yn cynnwys helpu'r Tîm Categori Corfforaethol drwy gasglu a threfnu gwybodaeth am gontractau, cefnogi gwaith adolygu a thendro a gweithio gyda staff eraill i wella sut mae contractau'n cael eu rheoli a'u trefnu.

Byddwch yn helpu i ddefnyddio systemau caffael i gasglu, trefnu a rheoli gwybodaeth am wariant a chontractau, gan gadw cofnodion yn gywir ac yn gyfredol. Byddwch yn cefnogi gwaith adolygu drwy gasglu tystiolaeth a helpu i ddeall a dadansoddi data. Bydd y rôl hefyd yn cynnwys paratoi a threfnu dogfennau tendro a chontractau, monitro sut mae cyflenwyr yn perfformio, a chydweithio â gwasanaethau a chyflenwyr i gasglu gwybodaeth a delio ag ymholiadau. Yn ogystal, byddwch yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm ac yn gwneud ymchwil marchnad.

I rywun sydd yn drefnus, gyda llygad am gywirdeb ac â diddordeb mewn caffael, mae'r rôl hon yn gyfle i unigolyn ddadansoddi data gwariant, cefnogi prosesau tendro a chontractio, cynnal cofnodion contractau'n effeithiol, ac adeiladu perthynas waith cadarn gyda gwasanaethau a chyflenwyr i wella llywodraethu a rheolaeth caffael ar draws y cyngor.

## GWYBODAETH SWYDD

**Mi fydd yr prentis yma yn gweithio yn yr adran Amgylchedd, Gwasanaeth busnes gyda threfniadau gwaith hybrid, hynny yw cymysgedd o weithio gartref a'r swyddfa dros gytundeb o 2 mlynedd.**

**Mae trwydded yrru yn hanfodol ar gyfer y swydd**

## PRENTISIAETH

**Prentisiaeth - Caffael a Chyflenwi Masnachol (CIPS), Lefel 3, dysgu seiliedig ar waith sef defnyddio portffolio electronig a chyfarfodydd Teams gyda Grŵp Llandrillo Menai**

# CANLLAWIAU GWNEUD CAIS PRENTISIAETHAU

Hoffem i chi strwythuro eich cais trwy ddilyn y penawdau sydd yn cyd-fynd ag egwyddorion y cynllun gan gadw at y nifer geiriau'n ofalus.

## PWYNTIAU PWYSIG

- Cofiwch - bydd dilyn y strwythur yma yn fanteisiol i dy gais
- Gan fod cywirdeb iaith yn y Gymraeg yn bwysig, well i ti gwblhau'r ffurflen yn y Gymraeg
- Yn dy enghreifftiau, dylet ti fanylu ar beth wnes di a'r effaith
- Paid ag ysgrifennu mwy na 150 o eiriau i bob un o'r pwyntiau
- Byddwn yn cysylltu â chi drwy eich ffonio os byddwch yn llwyddiannus

## STRWYHUR CAIS PRENTISIAETHAU

- PAM YMGEISIO AR GYFER Y BRENTISIAETH YMA?- Mae angen egluro pam wyt ti wedi ymgeisio am y brentisiaeth yma'n benodol. Cofia sôn am dy ddiddordeb yn y maes a pham bod chdi'n trio.
- YMDDYGIAD AC AGWEDD CYWIR - Mae angen i chdi ddisgrifio <u>un</u> digwyddiad sy'n dangos pan wnes di ymddwyn yn addas neu yn bositif i sefyllfa – e.e. dangos parch, agwedd bositif
- YMRWYMO I WAITH NEU BROSIECT - Mae angen i chdi ddisgrifio <u>un</u> digwyddiad sy'n dangos pan wnes di gyfrannu at dasg neu prosiect e.e. gwaith prosiect yn yr ysgol neu yn y coleg
- GWEITHIO FEL RHAN O DÎM- Mae angen i chdi ddisgrifio <u>un</u> digwyddiad sy'n dangos chdi'n gweithio yn effeithiol fel rhan o dîm

- CYFATHREBU EFO HYDER- Mae angen i chdi ddisgrifio un digwyddiad sy’n dangos bod chdi'n cyfathrebu’n hyderus ar lafar neu’n ysgrifenedig gydag unigoliyn neu grŵp
- BOD YN BAROD I DDYSGU - Mae angen i chdi ddisgrifio un digwyddiad sy’n dangos bod chdi'n barod i ddysgu neu pan wnes di ddysgu rhywbeth pwysig
- DEALL BETH SYDD EI ANGEN I WEITHIO I'R CYNGOR - Mae angen i chdi egluro pam dy fod di eisiau gyrfa efo'r Cyngor

# CYFLOGWR DIGIDOL

Bydd Prentisiaid a Hyfforddeion Proffesiynol sy’n cychwyn gyrfaoedd gyda Cyngor Gwynedd yn 2026 yn cyfrannu at waith y Sefydliad i weithredu ein Cynllun Digidol – cynllun sydd am lunio llwybr uchelgeisiol tuag at ein nod o fod yn gyflogwr digidol llawn.

Mae’r Cynllun Digidol yn gosod gweledigaeth o sut bydd y Cyngor yn defnyddio technoleg i ddatblygu ein gwasanaethau, i’n gallu i ddefnyddio data fel ffordd o wneud penderfyniadau , ac i wneud yn siŵr bod ein swyddogion gyda’r sgiliau a’r datrysiadau digidol er mwyn datblygu a chynnal gwasanaethau gorau. Bydd y cynllun yn rhoi cyfle i'r Cyngor ddatblygu mewn meysydd tebyg i ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a defnyddio technoleg arloesol i nodi dim ond rhai.

Mae’r weledigaeth o ddatblygu i fod yn gyflogwr digidol yn un hirdymor ac mae’r cynllun digidol yn rhoi blaenoriaethau yn eu lle fel sylfaen gadarn i'r daith gyffrous yma.

# UNDEB Y DYFODOL

## CREU YMDEIMLAD O BERTHYN YMYSG POBL IFANC Y CYNGOR

Mae'r Undeb yn rhoi'r cyfleoedd isod i aelodau o staff rhwng 16 - 35 oed

Cafodd ei sefydlu gan Jac un o'n Hyfforddeion Proffesiynol Arwain a Rheoli ar Gynllun Yfory.

I gefnogi eich datblygiad proffesiynol o fewn y Cyngor mi fydd yna sesiynau ar gael i fynychu fel sut y gallwch ddatblygu eich gyrfa, dysgu am eich cyfraniad i'r sefydliad, datblygu eich ymwybyddiaeth am sut mae'r cyngor yn gweithio a chodi eich hyder personol yn eich gwaith.

## BUDDIANNAU

- Dechrau a chymryd rhan mewn gweithgareddau a chlybiau cymdeithasol
- Posib derbyn cefnogaeth ariannol i sefydlu
- Cynnal sesiynau a gweithgareddau sy'n cefnogi chi datblygu yn eich swydd
- Rhwydweithio a dod yn ffrindiau gyda phobl ifanc eraill ar draws pob adran ac ardal y Cyngor

## GWEITHGAREDDAU SYDD YN DIGWYDD AR HYN O BRYD:

- Clwb Llyfrau Undeb y Dyfodol
- Digwyddiad Llunio Dy Lwybr Mapio Gyrfa
- Sesiynau Hyrox

Mwy i’w ddod!

# CEFNOGI YMGEISWYR

Rydym yn cefnogi egwyddorion cyfleoedd cyfartal ac yn ymdrechu i sicrhau adlewyrchiad teg o'r gymuned ymhlith ein staff. Ein polisi yw penodi'r person gorau i bob swydd wag, beth bynnag fo rhyw, oed, hil, cenedligrwydd neu anabledd unigolyn. Bydd ymgeiswyr anabl yn cael eu hasesu yn ôl eu gallu.

Rydym wedi ymroi i gynyddu y nifer staff anabl yr ydym yn eu cyflogi. Gwahoddir ceisiadau gan unigolion anabl a gwneir pob ymdrech i gefnogi a chadw staff sy'n profi anabledd yn ystod eu cyflogaeth gyda Cyngor Gwynedd.

## CWBLHAU'R FFURFLEN GAIS

Os ydych yn dymuno derbyn y ffurflen gais mewn fformat gwahanol megis 'braille', print bras neu ar dâp, fersiwn hawdd i ddarllen, cysylltwch â'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar 01286 679543 neu swyddi@gwynedd.llyw.cymru

## CYFWELIAD

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, byddwn yn gofyn i chi nodi os oes gennych unrhyw anghenion penodol. Gallwn wedyn sicrhau bod trefniadau addas ar eich cyfer – er enghraifft, trefnu cymorth megis dehonglydd arwyddiaith, llefarydd gwefusau, neu drefnu cludiant i chi i'r cyfweliad.

Gofynnwn yn garedig am ddigon o rybudd gennych i ni gael sicrhau ein bod yn gallu diwallu eich anghenion ar gyfer diwrnod y cyfweliad.

Gwneir pob ymdrech i drin staff anabl yn unol â'u hanghenion, ac os oes angen, bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i'r gweithle ac i weithdrefnau gwaith staff.

# CYDRADDOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i sicrhau amrywiaeth a chydraddoldeb yn y gweithle ac yn teimlo'n angerddol dros ddarparu gweithle cynhwysol ar gyfer ei holl staff. Un o'n prif amcanion yw sicrhau ein bod yn diwallu anghenion trigolion y sir gan sicrhau tegwch i bawb. Mae gennym ni gyfrifoldeb i sicrhau tegwch i holl bobl Gwynedd ac yn ôl eu hanghenion.

## ANABLEDD A NIWROAMRYWIAETH

Fel cyflogwr cynhwysol, mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i gefnogi pobl anabl ym mhob elfen o'u gwaith o ddydd i ddydd. Rydym yn cyd-weithio gydag ymgeiswyr i sicrhau cyfleodd cyfartal ac yn hapus i gefnogi unigolion drwy gynnig addasiadau rhesymol i'w trefniadau gwaith, fel bo'r angen.

Fel cyflogwr rydym yn:

- Cynnig cyfweliad i unigolion sy'n bodloni gofynion hanfodol Manylion Person swyddi
- Cynnig hyblygrwydd gyda threfniadau asesu unigolion fel y gall ymgeiswyr gael y cyfle gorau mewn cyfweliad
- Sicrhau bod gan ein staff ymwybyddiaeth briodol o gydraddoldeb ac anabledd

- Cynnal gwefan fewnol i godi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb, gwefan sy'n rhestru arbenigwyr addas all gefnogi a chynghori unigolion am brosesau gweithio amrywiol
- Sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i ddatblygiad a chynnydd staff anabl

# BE NESA'?

DYDDIAD CAU 29.05.26

- Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol
- Gwnewch ymchwil mewn i'r Cyngor ac i'r swydd
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dewis y swydd orau i chi
- Agorwch gyfrif ar Wefan Swyddi y Cyngor
- Dilynwch y canllawiau gwneud cais
- Cofrestrwch ar gyfer ein diwrnod agored Blas ar Wynedd

## COFRESTRWCH YMA AR GYFER DIWRNOD BLAS AR WYNEDD

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=iRKEmf1njk64ExKyL3guzn9AgxPJ_VNImA83EZBJ59VUREJKVTA2WkVNWFNYUUROUEZHVVI1QjNCUS4u

## GWEFAN CYNGOR GWYNEDD

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Swyddi-a-Gyrfaoedd/Prentisiaethau-a-Cynllun-Graddedigion/Prentisiaethau-a-Cynllun-Graddedigion.aspx

## CYSYLLTWCH

Facebook – Cynllun Yfory Cyngor Gwynedd

Facebook – Prentisiaethau Cyngor Gwynedd

LinkedIn – Cynllun Yfory

TikTok - @TalentGwynedd

Instagram - @prentisiaidcg

Instagram - @cynllunyforycyngorgwynedd

E-bost – prentisiaethau@gwynedd.llyw.cymru

E-bost – cynllunyfory@gwynedd.llyw.cymru